# Croeso

Mae'r Tîm Cymunedau Gwydn yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Tref Porthcawl yn ceisio sefydlu a chostio'r angen am le cymunedol newydd ar gyfer y dref gan ddefnyddio cyllid o Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU.

Mae'r prosiect hwn yn rhan o broses ehangach Adfywio Glannau Porthcawl , a rhagwelwn y bydd yr adeilad newydd hwn yn gwasanaethu fel lleoliad canolog i'r Cyngor Tref a Siambrau, yn ogystal â chynnig mannau amlbwrpas i grwpiau cymunedol ac ymwelwyr eu defnyddio.

Teimlwn ei bod yn bwysig bod y cyfleuster hwn yn diwallu anghenion a dyheadau pobl leol ac yn gwerthfawrogi mewnbwn Cynrychiolwyr Grwpiau Cymunedol i'r prosiect hwn. Ar hyn o bryd rydym yn gofyn am eich barn ar yr adeilad cymunedol newydd hwn. Bydd yr adborth a gawn yn helpu i lywio'r briff datblygu ar gyfer y gofod yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd, nid oes gennym amserlen ar gyfer adeiladu'r gofod, ond byddai'n cael ei chyflwyno fel rhan o brosiect Adfywio Glannau Porthcawl.

### Porthcawl Heddiw
Beth sydd gan y dref ar hyn o bryd a beth sydd ei angen yn y dyfodol?

### Dyluniad
Sut gallwn ni wneud yr adeilad newydd ar gyfer y gofod cymunedol yn gynaliadwy?

### Defnyddiau a Defnyddwyr
Beth allai man cymunedol newydd ei ddarparu ac ar gyfer pwy ddylai fod?

### Mynediad
Sut gallwn ni sicrhau bod pawb yn gallu defnyddio'r gofod cymunedol newydd?

# Welcome

The Resilient Communities Team at Bridgend County Borough Council and Porthcawl Town Council are looking to establish and cost the need for a new community space for the town using funding from the Government's UK Shared Prosperity Fund.

This project is part of the wider Porthcawl Waterfront Regeneration process, and we anticipate that this new building will serve as a central location for the Town Council and Chambers, as well as offering versatile spaces for community groups and visitors to use.

We feel it is important that this facility meets the needs and aspirations of local people and value the input of Community Group Representatives into this project. At this stage we are asking for your thoughts on this new community building. The feedback we receive will help inform the future development brief for the space.

At present, we do not have a timescale for the construction of the space, but it would come forward as part of the Porthcawl Waterfront Regeneration project.

### Porthcawl Today
What does the town currently have and need in the future?

### Design
How can we make the new building for the community space sustainable?

### Uses and Users
What could a new community space provide and who should it be for?

### Access
How can we make sure everyone can use the new community space?

Gadewch eich sylwadau yma gan ddefnyddio nodyn gludiog a ddarparwyd

# Porthcawl Heddiw | Porthcawl Today

Please leave your comments using a sticky note provided

Gan dynnu ar eich profiad eich hun fel unigolyn a chynrychiolydd o grwpiau cymunedol. Rydym yn gofyn i chi feddwl am ba ddarpariaeth sydd ar goll yn y dref ar hyn o bryd neu'n anodd ei chyrchu?

Gwasanaethau cymunedol

Gweithgareddau cymunedol

Mwynderau

Drawing on your own experience as an individual and representative of a community groups. We are asking you to please think about what provision is currently missing in the town or is hard to access?

Community services

Community activities

Amenities

Gadewch eich sylwadau yma gan ddefnyddio nodyn gludiog a ddarparwyd

# Defnyddiau a Defnyddwyr

Rydym yn awyddus i'r gofod cymunedol ddarparu cyfleusterau newydd hygyrch o ansawdd i'r Cyngor Tref. Gwyddom eisoes, yn ddelfrydol, eu bod angen swyddfeydd, Siambr y Cyngor, man cyfarfod, ac ystafell fwrdd.

Rydym yn gofyn i chi feddwl am ba ddefnyddiau a defnyddwyr y dylid eu hystyried wrth fwrw ymlaen â'r cynigion ar gyfer y gofod:

Pa weithgareddau hoffech chi eu gweld ar gael yn y gofod cymunedol newydd?

A oes unrhyw wasanaethau cymunedol y teimlwch y byddai'n bwysig eu cynnwys yn y gofod cymunedol newydd?

Beth yw'r ffordd orau i'r gofod cymunedol gefnogi'r anghenion i grwpiau penodol – megis teuluoedd ifanc, busnesau lleol ac/neu eraill?

# Uses and Users

Please leave your comments using a sticky note provided

We are keen for the community space to provide new quality and accessible facilities for the Town Council. We already know that ideally, they need offices, a Council Chamber, meeting space, and a board room.

We are asking you to please think about what uses and users should be considered when progressing the proposals for the space:

What activities would you like to see available at the new community space?

Are there any community services you feel would be important to include at the new community space?

How can the community space best support the needs to specific groups – such a young families, local businesses and/or others?

Gadewch eich sylwadau yma gan ddefnyddio nodyn gludiog a ddarparwyd

# Dyluniad

Rydym eisiau creu adeilad o ansawdd uchel ar gyfer y gofod cymunedol sy'n addas i'r diben nawr ac yn y dyfodol.

Rydym yn gofyn i chi ystyried:

Pa fwynderau penodol ydych chi'n teimlo fyddai'r pwysicaf i'w cynnwys yn y gofod cymunedol newydd?

Pa mor bwysig yw hi i chi fod y gofod cymunedol yn cael ei adeiladu gan ddefnyddio deunyddiau neu dechnolegau adeiladu cynaliadwy – pa syniadau sydd gennych chi am yr hyn y dylid ei gynnwys?

Pa mor bwysig yw hi i chi i'r gofod cymunedol gynhyrchu ei ynni ei hun?

# Design

We want to create a high quality building for the community space that is fit for purpose now and into the future.

Please leave your comments using a sticky note provided

We are asking you to please think about:

What specific amenities do you feel would be the most important to include at the new community space ?

How important is it to you for the community space to be built using sustainable building materials or technologies – what ideas do you have of what should be included?

How important is it to you for the community space to generate its own energy?

Gadewch eich sylwadau yma gan ddefnyddio nodyn gludiog a ddarparwyd

# Mynediad | Access

Mae'n bwysig bod y gofod cymunedol hwn yn allu cael ei ddefnyddio gan bawb yn y dref.

It is important that this community space can be used by everyone in the town.

Please leave your comments using a sticky note provided

Rydym yn gofyn i chi ystyried:

Pa nodweddion fyddai'n sicrhau bod y gofod cymunedol yn groesawgar, yn hawdd ei ddefnyddio ac yn hygyrch i bawb?

Beth fyddai'n galluogi'r gofod cymunedol i fod yn hawdd i bobl deithio iddo ac oddi yno?

We are asking you to please think about:

What features would ensure that the community space is welcoming, user-friendly, and accessible to all?

What would enable the community space to be easy for people to travel to and from?

# Diolch a Chamau Nesaf

**Diolch am gymryd yr amser i ymuno â ni ar gyfer y gweithdy heddiw. Gobeithiwn ei fod wedi bod yn ddefnyddiol ac yn ddiddorol i chi.**

Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau ac adborth pellach sydd gennych chi neu aelodau eraill o'ch grŵp y gallwch eu hanfon atom drwy:

- communityspace@grasshopper-comms.co.uk
- FREEPOST GRASSHOPPER CONSULT
- re-url.uk/WOJZ (Ffurflen adborth , ar agor tan 9 Hydref)
- bit.ly/CyngorTrefPorthcawl

# Thank you & Next Steps

**Thank you for taking the time to join us for the workshop today. We hope that you found it useful and interesting.**

We would welcome any further comments and feedback you have which you can send to us by:

- communityspace@grasshopper-comms.co.uk
- FREEPOST GRASSHOPPER CONSULT
- re-url.uk/WOJ8 (Feedback form, open until 9 October)
- bit.ly/PorthcawlTownCouncil

# Amserlen

**Medi – Hydref 2024**
Ymgysylltiad Gofod Cymunedol Hwb Porthcawl

**Tachwedd 2024**
Ymgysylltiad Ailddatblygu Glannau Porthcawl

**Ionawr 2025**
Cyflwyno canfyddiadau o ymgysylltiad Hwb

**Gwanwyn 2025**
Cyflwyno canfyddiadau o ymgysylltiad Ailddatblygu Glannau Porthcawl

# Timeline

**September – October 2024**
Porthcawl Hwb Community Space engagement

**November 2024**
Porthcawl Waterfront Redevelopment engagement

**January 2025**
Presentation of findings from Hwb engagement

**Spring 2025**
Porthcawl Waterfront Redevelopment reporting